Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 358 (Cymru) – 11 Ionawr 2024**

## Mai 2024: Llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym

Fel y nodir ym Mwletin 355, rydym bellach yn casglu archebion ar gyfer copïau caled o lawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym i'w defnyddio yn etholiadau mis Mai 2024.

Os nad ydych wedi gwneud hyn eisoes, y dyddiad cau ar gyfer llenwi'r ffurflen archebu ar-lein yw dydd Gwener 19 Ionawr.

Byddwn yn argraffu yn ôl archeb felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi eich ffigurau i ni erbyn y dyddiad cau. Sylwch, ar ôl i chi gyflwyno eich ffurflen archebu, ni fyddwch yn gallu newid eich archeb eich hun. Os oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau i'ch archeb, cysylltwch ag infowales@electoralcommission.org.uk.

Byddwn yn cadarnhau amseriad dosbarthu'r copïau caled mewn Bwletin yn y dyfodol.

## Mai 2024: Arolwg cyn y bleidlais y Swyddog Canlyniadau

Fel rhan o'n dull o gefnogi'r gwaith o gynnal etholiadau ym mis Mai 2024, rydym unwaith eto yn casglu gwybodaeth gan bob awdurdod lleol. Anfonwyd yr arolwg at bob Swyddog Canlyniadau a Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol ddydd Mawrth 2 Ionawr drwy e-bost, a gellir ei gyrchu yma.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd y wybodaeth a roddwch yn ein helpu i greu darlun clir o'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer cynnal yr etholiadau a bydd hefyd yn darparu ystadegau allweddol y gellir eu defnyddio gyda'r cyfryngau ac ymholwyr eraill yn adweithiol ac yn rhagweithiol.

Mae'r arolwg yn ymdrin â meysydd fel dyddiadau a drefnwyd ar gyfer anfon cardiau pleidleisio a phleidleisiau post, nifer y gorsafoedd pleidleisio a staff, ac amseroedd a lleoliadau ar gyfer y broses ddilysu a chyfrif. Rydym hefyd am glywed sut yr ydych yn paratoi ar gyfer rheoli a chyflawni darpariaethau'r Ddeddf Etholiadau a fydd yn berthnasol ar gyfer yr etholiadau hyn.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Mai 2024: Llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym**

Nodyn atgoffa ar gyfer archebion copi caled.

**Mai 2024: Arolwg cyn y bleidlais y Swyddog Canlyniadau**

Nodyn atgoffa i gyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â chynnal etholiadau ym mis Mai 2024.

**Diweddariad ar ganllawiau: Canllawiau i Ymgeiswyr ac Asiantiaid – is-etholiadau Senedd y DU**

Gwybodaeth a dolen i'n canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid yn is-etholiadau Senedd y DU, sydd wedi'u cyhoeddi yn HTML.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio infowales@electoralcommission.org.uk**

Rydym yn deall pa mor brysur ydych chi ac yn gwerthfawrogi'n fawr eich bod yn rhoi o'ch amser i ddarparu'r wybodaeth bwysig hon i ni. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r arolwg erbyn **dydd Gwener 19 Ionawr 2024** fan bellaf. Rydym wedi darparu rhestr o'r cwestiynau y gallwch eu defnyddio i gyfeirio atynt cyn i chi gwblhau'r arolwg.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am unrhyw agwedd ar hyn, cysylltwch â infowales@electoralcommission.org.uk.

## Diweddariad ar ganllawiau: Canllawiau i Ymgeiswyr ac Asiantiaid – is-etholiadau Senedd y DU

Ymhellach i Fwletin 354, rydym bellach wedi cyhoeddi'r canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid ar gyfer is-etholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

infowales@electoralcommission.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2023

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**